OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 Rhif 1395 (Cy.124)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU
# TRWYDDEDAU A THRWYDDEDU, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plismona a Throsedd 2009 (Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2010

*Gwnaed - - - - 4 Mai 2010*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 27(11) a pharagraffau 3 a 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Plismona a Throsedd 2009(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a chymhwyso**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plismona a Throsedd 2009 (Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) (Cymru) 2010 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn—

mae i "adloniant perthnasol" yr ystyr a roddir i "*relevant entertainment*" ym mharagraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf 1982,

ystyr "yr ail ddiwrnod penodedig" ("*the second appointed day*") o ran ardal awdurdod lleol, yw'r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y diwrnod sef y diwrnod penodedig cyntaf o ran yr ardal honno,

mae i "awdurdod lleol" yr ystyr a roddir i "*local authority*" gan adran 2(5) o Ddeddf 1982,

ystyr "Deddf 2009" ("*the 2009 Act*") yw Deddf Plismona a Throsedd 2009,

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Trwyddedu 2003(**2**),

ystyr "Deddf 1982" ("*the 1982 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982(**3**),

(**1**) 2009 p. 26.
(**2**) 2003 p.17.
(**3**) 1982 p.30. Diwygiwyd Atodlen 3 i'r Ddeddf honno gan adran 52 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 (p.48) a pharagraff 7 o Atodlen 14 iddi, adran 198 o Ddeddf Trwyddedu 2003 a pharagraffau 82 ac 85 o Atodlen 5 iddi, adran 24 o Ddeddf Sinemâu 1985 (p.13) a pharagraff 16 o Atodlen 2 iddi, adran 26(1) o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (p. 60), adrannau 111 a 174 o Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15) a pharagraff 22 o Atodlen 7 iddi, O.S. 1984/447, O.S. 2005/886, O.S. 2009/2999, ac o ran bwrdeistrefi penodol yn Llundain, gan adran 12 o Ddeddf Cyngor Llundain Fwyaf (Pwerau Cyffredinol) 1986 (p. iv), adran 33 o Ddeddf Awdurdodau Lleol Llundain 2007 (p. ii) ac O.S. 2005/1541. Caiff ei

ystyr "y diwrnod penodedig cyntaf" ("*the first appointed day*") o ran ardal awdurdod lleol, yw'r diwrnod y mae Atodlen 3 i Ddeddf 1982, fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf 2009, yn dod i rym yn yr ardal honno o ganlyniad i benderfyniad yr awdurdod lleol o dan adran 2 o Ddeddf 1982 neu baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2009,

mae i "lleoliad adloniant rhywiol" (a chyfeiriadau at ddefnydd o'r fangre fel lleoliad o'r fath) yr ystyr a roddir i "*sexual entertainment venue*" ym mharagraff 2A o Atodlen 3 i Ddeddf 1982,

mae i "mangre" (ar wahân i'r ymadroddion "trwydded i fangre" a "tystysgrif mangre clwb") yr ystyr a roddir i "*premises*" gan baragraff 2A(14) o Atodlen 3 i Ddeddf 1982,

mae i "sinema ryw" yr ystyr a roddir i "*sex cinema*" ym mharagraff 3 o Atodlen 3 i Ddeddf 1982,

mae i "siop ryw" yr ystyr a roddir i "*sex shop*" ym mharagraff 4 o Atodlen 3 i Ddeddf 1982,

mae i "trwydded i fangre" (a "tystysgrif mangre clwb") yr ystyr a roddir i "*premises licence*" (a "club premises certificate") yn Neddf 2003,

ystyr "y trydydd diwrnod penodedig" ("*the third appointed day*"), o ran ardal awdurdod lleol, yw'r diwrnod cyntaf ar ôl diwedd cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y diwrnod sef y diwrnod penodedig cyntaf o ran yr ardal honno.

(2) Mae'r cyfeiriadau yn erthyglau 6(1), 7(1) ac 8(1) at gais i gael trwydded o dan Atodlen 3 i Ddeddf 1982 o ran lleoliad adloniant rhywiol yn cynnwys cyfeiriadau at gais i amrywio neu adnewyddu trwydded o dan Atodlen 3 i Ddeddf 1982 am siop ryw neu sinema ryw er mwyn galluogi defnyddio'r fangre o dan sylw fel lleoliad adloniant rhywiol.

(3) Nid yw'r cyfeiriadau yn erthyglau 6 i 8 at benderfynu cais yn cynnwys cyfeiriadau at benderfynu unrhyw apêl yn erbyn gwrthod caniatáu cais o'r fath.

**Darpariaethau trosiannol ac arbed**

**3.** Mae erthyglau 4 i 11 yn gymwys os bydd Atodlen 3 i Ddeddf 1982, fel y'i diwygiwyd gan adran 27 o Ddeddf 2009, yn dod i rym yn ardal awdurdod lleol o ganlyniad i benderfyniad gan yr awdurdod o dan adran 2 o Ddeddf 1982 neu baragraff 2(2) o Atodlen 3 i Ddeddf 2009.

**4.** Nid yw paragraffau 28 a 29 o Atodlen 3 i Ddeddf 1982 (darpariaeth drosiannol bresennol) yn gymwys o ran lleoliadau adloniant rhywiol.

**5.**—(1) Mae'n gyfreithlon i unrhyw berson y mae ganddo yn union cyn y diwrnod penodedig cyntaf drwydded Deddf 2003 o ran unrhyw fangre ac sy'n defnyddio'r fangre fel lleoliad adloniant rhywiol o dan drwydded Deddf 2003, neu sy'n gwneud gwaith paratoi i ddefnyddio'r fangre fel lleoliad o'r fath o dan y drwydded honno, ddefnyddio'r fangre fel lleoliad adloniant rhywiol o dan drwydded Deddf 2003 tan y trydydd diwrnod penodedig, neu benderfynu cais y mae erthygl 6 neu 7 yn gymwys iddo ac sy'n cael ei wneud gan y person hwnnw (gan gynnwys penderfynu unrhyw apêl yn erbyn gwrthod caniatáu'r cais), p'un bynnag yw'r diweddaraf.

(2) Ym mharagraff (1) ystyr "trwydded Deddf 2003", o ran unrhyw fangre, yw trwydded i fangre neu dystysgrif mangre clwb y mae'n gyfreithlon darparu odani adloniant perthnasol yn y fangre honno.

(3) Mae paragraff (1) yn gymwys er gwaethaf Atodlen 3 i Ddeddf 1982 (ac o'r herwydd nid yw unrhyw ddefnydd a awdurdodir gan y paragraff hwnnw yn groes i baragraff 6 o'r Atodlen honno) ond fel arall nid yw'n rhagfarnu unrhyw ddeddfiad arall.

diwygio hefyd gan adran 27 o Ddeddf Plismona a Throsedd 2009 (p. 26) o 6 Ebrill 2010 ymlaen o ran Lloegr ac o 8 Mai 2010 ymlaen o ran Cymru.